# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 31 Ionawr 2022

Amser: 13.01 - 15.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12744

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Alun Davies AS<br>Peter Fox AS |
| Tystion: | Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Paul Harrington, Llywodraeth Cymru<br>Rob Parry, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Claire Fiddes (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad mewn perthynas â fframweithiau cyffredin a chyfraith yr UE a ddargedwir.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)129 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon.

### 3.2 SL(6)136 – Rheoliadau Addysg (Cymhwystra ar gyfer Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(6)130 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chyfrifoldeb) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)131 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(6)132 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(6)134 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.5 SL(6)139 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.6 SL(6)133 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 9A) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(6)137 – Cod ar yr Arferion a Argymhellir o ran Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 6.1 SL(6)087 – Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

### 6.2 SL(6)135 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2022

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'w adroddiad.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(6)005 – Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ragor o eglurhad.

### 7.2 WS-30C(6)006 – Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022

Nododd y Pwyllgor y datganiad, y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r sylwadau. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ragor o eglurhad.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd – y camau nesaf 28 Ionawr 2022

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 10 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a chytunodd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i ofyn am ragor o fanylion ac eglurder ar nifer o faterion.

## 11 Adroddiad monitro

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad monitro.

## 12 Cynllunio strategol a'r flaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â'i flaenraglen waith.

## 13 Adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor ei ymateb, a chytuno arno, i lythyr y Llywydd ar yr adolygiad o amserlen a chylchoedd gorchwyl y pwyllgorau.

## 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), a chytunodd i drafod ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 15 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws)

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws, a chytunodd arno.

## 16 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, a chytunodd arno.